

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Ebrill 2019

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Sylwadau Cyffredinol

Hon oedd yr ail rownd o arholiadau lle roedd gofyn bod yr holl ymgeiswyr Cyflawn yn cwblhau cyfanswm o 3 darn o waith. Roedd y darn cyntaf yn 'waith cartref', ac yn gorfod cael ei gwblhau o fewn terfynau amser penodedig cyn dod i'r ganolfan arholi i gwblhau'r ddau ddarn o dan amodau arholiad. Diben y gwaith cartref, yn anad dim, yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu heb wynebu straen ystafell yr arholiad, a heb gael eu hamddifadu o'u ffynonellau arferol ar y we. Y disgwyl, felly, yn ddigon naturiol, yw bod y gwaith cartref yn agos iawn at berffeithrwydd, ac ni ellir maddau llithriadau esgeulus ynddo. Gall amodau arholiad achosi rhai mân frychau hyd yn oed yng ngwaith ymgeiswyr cryf, felly mae'r darn gwaith cartref yn gyfle pwysig i ymgeiswyr ddangos eu doniau, a dylai pawb ohonynt fanteisio ar hynny, fel bod modd i'r gwaith a wnaed ymlaen llaw weithio o'u plaid, os digwydd bod eu sgrïpt arholiad ar y ffin rhwng llwyddo a methu.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 12

Llwyddo: 1

Yng ngoleuni'r sylwadau uchod a'r cyfle a gafodd pob un o'r ymgeiswyr i gyflwyno darn o waith cyfieithu caboledig cyn sefyll yr arholiad ffurfiol, siom yw gorfod nodi mai un yn unig a lwyddodd yn y rownd hon.

Roedd y darn gwaith cartref, rhan o'r cyflwyniad i ffotograffau'r gyfrol *Mametz*, yn fwriadol heriol, i adlewyrchu'r hyn a ddisgwylir gan gyfieithydd proffesiynol, ond roedd hefyd yn gyfle i gyfieithydd ddangos ei fod yn medru cyfleu naws y gwreiddiol, yn ogystal â'r ystyr. Gwaetha'r modd, er bod ambell un wedi gwneud ymgais dda yn hyn o beth, roedd nifer wedi glynu'n rhy agos at y gwreiddiol, a themlid mai cyfieithu geiriau oedd wedi digwydd,

yn hytrach na chyfleu ystyr brawddegau mewn modd oedd yn llifo'n naturiol yn Gymraeg. Roedd brawddeg gyntaf y darn yn enghraifft amlwg o hynny:

Mametz Wood was where men and nature underwent a mutually destructive action.
Yng Nghoed Mametz cafodd dynion a byd natur eu dinistrio yn yr un modd.
Coedwig Mametz oedd lleoliad brwydr gyd-ddinistriol i ddynion a natur.
Coedwig Mametz oedd lle bu dynion a natur yn destun i weithred gyd-ddinistriol.

Nid yw'r un o'r enghreifftiau uchod yn argyhoeddi fel brawddeg Gymraeg wreiddiol, ac mae'r cyfieithiadau sy'n dilyn, sy'n symlach ac yn fwy uniongyrchol, yn cadw'n llawer nes at ystyr a naws y gwreiddiol:

Yng Nghoedwig Mametz cafodd dynion a natur eu dinistrio y naill gan y llall.
Yng Nghoed Mametz, cafwyd effaith ddinistriol ar ddynion a byd natur fel ei gilydd.

Adran arall a achosodd gryn anhawster i'r ymgeiswyr oedd:

...and prevents easy thoughts about nature's regenerative power.
...ac yn atal meddwl yn hawdd am rym atgynhyrchu natur.
...yn ffrwyno hawddfyd ein hystyriaethau am rym adfywiol byd natur.
...wrth hefyd ein rhwystro rhag ymgilio i syniadau diymdrech am nerth adfywiol natur.

Yma eto, cafwyd llawer gormod o gyfieithu llythrennol fesul gair, yn hytrach na mynd ati i gyfleu'r cysyniad sydd dan sylw. Enghreifftiau llawer mwy llwyddiannus oedd:

...yn ogystal â'n hatal rhag meddwl yn syml am bŵer adfywiol natur.
...ac yn rhwystro meddyliau hawdd am rym adfywiol natur.

Cyfeiriwyd eisoes yn y sylwadau cyffredinol at y ffaith na ellir caniatáu gwallau esgeulus yn y darn gwaith cartref, a rhaid pwysleisio eto bod disgwyl i safon y gwaith a gyflwynir fod yn gwbl broffesiynol. Siom felly oedd gweld ffurfiau berfol yn achosi trafferth:

They dug into it... they were drowned... they were entangled... and crushed by falling trees.
Fe'i palwyd...
Roedd y milwyr yn claddu i mewn iddi... roeddent wedi mynd yn ddryslyd mewn canghennau...
...a'u sathru gan goed yn disgyn.
Turiasant iddi...cawsant eu maglu mewn canghennau a'u malu gan goed yn cwmpo.
Gwnaethant ei chloddio... ..a bu i goed ddisgyn ar eu pennau.

Siom fawr yw gweld cyfieithu gwan fel hyn yn cael ei gyflwyno ar y lefel hon, yn enwedig yn y gwaith cartref. Wedi dweud hynny, cafwyd gan yr ymgeisydd llwyddiannus waith oedd yn argyhoeddi, a chafwyd gwaith cartref addawol gan sawl un arall. Dyma rai enghreifftiau:

...fe'u boddwyd mewn ffosydd a cheudyllau llawn dŵr; fe'u rhwydwyd mewn canghennau; ac fe'u gwasgwyd gan goed a oedd yn cwmpo.
Roedd grymoedd dyn a natur ynghlwm mewn coflaid farwol, fel yr oedd milwyr Cymru a'r Almaen.

Mewn ffotograffau eraill, gwelir ceinciau ar goed a achoswyd gan sielïau neu fwledi ond sy'n ymddangos yn ddigon tebyg i dyfiant naturiol. Ers y rhyfel, mae gweddillion milwrol wedi dod yn rhan gynhenid o'r lle hwn.

...a chafodd dynion a'u peiriannau eu dal mewn isdyfiant a'u lladd gan goed yn cwmpo. ...ac yn atal myfyrdodau cysurus am bêr adfywiol byd natur.

Er bod y darn hwn yn un heriol, byddai disgwyl i gyfieithydd o safon broffesiynol fedru ymdopi â'r gofynion oedd ynddo, a siom yw gorfod nodi na lwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i gyrraedd y safon angenrheidiol. Yn wir, er nad oedd y darn gwaith cartref yn cael ei gwblhau o dan amodau arholiad, yn achos tua hanner yr ymgeiswyr, ni ellid dweud bod safon y gwaith cartref yn rhagori ar yr hyn a gyflwynwyd yn yr arholiad, gan fod gwallau ystyr a chystrawen yn brigo i'r wyneb, yn ogystal â thuedd i gyfieithu'n llawer rhy lythrennol, fel nad oedd y gwaith a gyflwynwyd yn argyhoeddi'r darllenydd.

Wrth droi at y ddau ddarn o dan amodau arholiad, siom yw gorfod nodi eto mai anghyson oedd y safon, ac er bod peth cyfieithu llwyddiannus, effeithiol yng ngwaith nifer o'r ymgeiswyr, ochr yn ochr â hynny cafwyd gwallau na ddylent ddigwydd mewn gwaith o safon broffesiynol, e.e. y trafferth a gafodd sawl ymgeisydd i ymdopi gydag ymadrodd y gellid tybio y byddai'n ddigon cyfarwydd, megis '*each EU member state*'. Dewiswyd y darn cyntaf hwn yn benodol oherwydd bod GDPR wedi bod mor amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd disgwyl y byddai unrhyw gyfieithydd proffesiynol yn gyfarwydd â chlywed am y maes, hyd yn oed os nad oedd wedi cael profiad uniongyrchol o gyfieithu gwaith yn ei gylch.

Mae disgwyl i unrhyw waith a gyflwynir ar y lefel yma gyfleu ystyr y gwreiddiol yn ddiamwys, a siom felly oedd gweld gwallau fel y canlynol:

...a single set of rules, directly enforceable...

...un set o reolau y mae'n rhaid eu gorfodi...

...data breach notification...

...hysbysiadau o dramgwyddau data...

...in each EU member state.

...ymhob aelod-wladwriaeth yr EU

...more complex international flows of personal data.

...llifoedd data personol rhyngwladol mwy cymhleth.

...a 4% global revenue fine for organizations that fail to adhere to GDPR compliance obligations.

...dirwy fyd-eang o 4% a godir ar incwm sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cydymffurfio'r GDPR.

Any organization that processes personal data relating to EU individuals is within the scope of the law, regardless of whether the organization has a physical presence in the EU.

O fewn cwmpas y gyfraith mae unrhyw sefydliad sy'n prosesu data sy'n ymwneud ag unigolion yr UE, ni waith a oes gan y sefydliad hwnnw bresenoldeb corfforol yn yr UE.

For each high-risk activity, organizations can carry out a data protection impact assessment...

Ar gyfer pob gweithgaredd risg uchel, gall sefydliadau gynnal asesiad o effaith...

Mae enghreifftiau fel yr uchod yn wan o ran cystrawen ac yn methu â chyfleu union ystyr y gwreiddiol, a siom yw gweld cynigion o'r safon yma mewn papur ar y lefel Gyflawn. Yn anffodus, cafwyd gwallau o'r un math yn yr ail ddarn yn ogystal:

...so it's no surprise that the proposals for the next CAP, which will run until 2027...

...felly nid yw'n syndod bod y cynigion ar gyfer y CAP nesaf, a fydd yn mynd hyd 2027...

(Roedd yr acronym 'PAC' wedi'i roi i'r holl ymgeiswyr ar y papur, ac roedd yr ymgeisydd hwn wedi'i ddefnyddio'n gynharach yn yr un paragraff.)

For all its shortcomings, the EU Common Agricultural Policy (CAP) is still underpinned by those principles...

Er gwaethaf holl ddiffygion y Ddeddf, mae'r egwyddorion hynny yn dal i danseilio Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE.

...the scheme may even be biased against active farmers,

...mae'n bosib dadlau bod y cynllun yn dueddol yn erbyn ffermwyr.

Ym mhob un o'r tri darn, felly, cafwyd enghreifftiau o gystrawennau gwallus, gwallau ystyr oedd yn amrywio o lynu'n rhy agos at batrymau'r iaith wreiddiol i gamgyfieithu difrifol, a methiant cyffredinol i sicrhau cyfieithiad oedd yn llifo'n naturiol yn yr iaith darged. Wedi dweud hynny i gyd, fe gafwyd rhai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, cadarn, fel y canlynol:

...principles reflected on the continent a decade later in the Treaty of Rome.

...egwyddorion a adlewyrchwyd ar y cyfandir ddegawd yn ddiweddarach yng Nghytundeb Rhufain.

The proposals for Wales could not be further from these principles:

Mae'r cynigion ar gyfer Cymru'n mynd yn gwbl groes i'r egwyddorion hyn:

It updates and replaces the patchwork of national data protection laws currently in place with a single set of rules, directly enforceable in each EU member state.

Mae'n diweddarau ac yn disodli'r clytwaith o gyfreithiau diogelu data cenedlaethol presennol gydag un set o reolau y gellir eu gorfodi'n uniongyrchol ym mhob un o aelod-wladwriaethau'r UE.

Wrth longyfarch yr un ymgeisydd llwyddiannus, felly, gwaetha'r modd mae'n rhaid gresynu na lwyddodd neb o'r lleill i gynnal y safon angenrheidiol y tro hwn. Er bod enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus yng ngwaith sawl un, amharwyd ar y cyfanwaith gan fynegiant trwsogl a gwallau na ddisgwylid eu gweld ar y lefel hon. Rhaid pwysleisio eto mai arholiad ar gyfer cyfieithwyr ar y lefel broffesiynol yw hwn, ac felly bod disgwyl gwaith sy'n cyrraedd y safon uchaf, yn arbennig yn achos y darn gwaith cartref, lle caiff yr ymgeiswyr gyfle i ddisgleirio.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 2

Llwyddo: 0

Dim ond dau ymgeisydd a gafwyd i'r Saesneg ar y lefel hon y tro hwn, ac yn anffodus, ni lwyddodd y naill na'r llall i gynnal y safon angenrheidiol i lwyddo, er bod enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus yng ngwaith y ddau. Fel yn achos yr arholiad Cyflawn i'r Gymraeg, syndod oedd gweld bod safon y darnau gwaith cartref, os rywbeth, yn is na'r hyn a gafwyd yn yr arholiad, a hynny er bod yr ymgeiswyr yn cael llawer mwy o amser i wneud y gwaith, yn gallu defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth arferol ar y we, a heb fod o dan straen amodau arholiad. Fel y soniwyd yn yr adran i'r Gymraeg, un o'r prif resymau dros ychwanegu'r darn i'w gyflwyno ymlaen llaw yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu doniau a disgleirio, ond yn anffodus ni welwyd hynny yn y rownd hon. Yn wir, roedd y gwaith cartref yn cynnwys sawl enghraifft o gyfieithu gwallus a mynegiant trwsogl, fel y canlynol:

...hyd yn oed mewn oes o fenthyciadau esthetig niferus.
...even in an age of plentiful aesthetic lending.

...sylwebyddion adfywiad cenedlaethol y cyfnod...
The national revival commentators of the period...

...mab un o'r crefftwyr lleol a gyflogasai...
...the son of one of the local craftsmen he employed...
...the son of a local craftsman he employed...

...artistiaid a gweithdai estron...
...outsider artists and workshops.

...yn y neuadd wledda.
...in the feasting hall.

...mynegiant gwladgarol o Gymreictod...
...expressions of characteristically Welsh patriotism...

Wedi dweud hynny, cafwyd rhai cyffyrddiadau ardderchog, fel y canlynol:

...hyd yn oed mewn oes o fenthyciadau esthetig niferus.
...even during an age when aesthetic borrowing was commonplace.

...nemor ddim sylw yng Nghymru ei hun y tu allan i Gaerdydd.
...they received little attention in Wales itself outside Cardiff.

Dichon y teimlai'r cenedlaetholwyr fod cyfle godidog wedi ei golli.
The nationalists must surely have felt a great opportunity had been lost.

Yr un patrwm anghyson oedd i'w weld yn y ddau ddarn o dan amodau arholiad. Ar y naill law cafwyd rhai troadau ymadrodd effeithiol, fel y canlynol:

...nid bod yn fam sy'n fy niffinio i.
...being a mother is not what defines me.

...a fydd yn targedu twf cyflymach ac yn cryfhau gwytnwch economaidd.
...targeting accelerated growth and strengthening economic resilience.

...yn betrus gyffrous...
...with tentative excitement...

...agosatrwydd cyfrin...
...magical intimacy...

Ond gwaetha'r modd, ochr yn ochr â hynny, cafwyd hefyd enghreifftiau o gyfieithu trwsgl neu anghywir, lle roedd ystyr y gwreiddiol yn aneglur neu wedi'i golli'n llwyr, e.e.:

...mae'r dechnoleg fodern yn felltith...
Technology is a modern curse...

Yn anochel, mae byd gwaith a chartre'n gorgyffwrdd.
Inevitably, the worlds of home and work overlap.

...mae rhywun yn edrych ymlaen at y rhyddid ymenyddol sy'n dod o fyw y tu allan i'r swigen fagu...
...I look forward to the cerebral freedom which comes with living beyond the bubble of raising a child...

...ac yn llesteirio twf economaidd.
...as well as impairing economic growth.

...gall methiannau o ran gwybodaeth gael eu dwysáu...
Failures regarding a lack of knowledge can also be exacerbated...

Er bod rhai pethau da yng ngwaith y ddau ymgeisydd, felly, yn anffodus ni lwyddwyd i gynnal y safon angenrheidiol i sicrhau Aelodaeth Gyflawn. Rhaid i'r cyfieithydd proffesiynol lwyddo i gyfleu ystyr y gwreiddiol yn gwbl eglur yn yr iaith darged, heb orgyfieithu na hepgor unrhyw elfennau pwysig, ond rhaid sicrhau hefyd ei fod yn gwneud hynny mewn iaith sy'n llifo'n naturiol, ac yn darllen fel darn gwreiddiol yn yr iaith darged, yn hytrach na chyfieithiad. Gwaetha'r modd, ni lwyddodd y naill na'r llall o'r ymgeiswyr i gyflawni hynny y tro hwn.

Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch o galon, fel bob amser, i holl aelodau'r Bwrdd Arholi Testunau ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

Fiona Gannon
Mehefin 2019